

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	9 MAWRTH 2020
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Tŷ BEECHWOOD, BRIDGE STREET, DOLGELLAU
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Tŷ Beechwood, Bridge Street, Dolgellau, LL40 1AU gan yr ymgeisydd Dean Hawkins. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer siop drwyddedig a bar, drwy drawsnewid y llawr gwaelod.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol oddi ar yr eiddo.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Derbyniwyd un gwrthwynebiad i'r cais, a cytunodd yr ymgeisydd i amodau gwarchod y cyhoedd o ran cyfaddawdu gyda'r oriau agor. Nid oedd gwrthwynebiadau gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân. Nododd yr Heddlu sylwadau mewn perthynas a TCC.

Gweler y tabl amgaaedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG	TRWYDDED ARFAETHEDIG
Oriau Agor / Opening Hours:	Dydd Llun/Monday 09:00-00:30 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-00:30 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-00:30 Dydd Iau/Thu 09:00-00:30 Dydd Gwener/Friday 09:00-00:30 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:30 Dydd Sul/Sunday 09:00-00:30
Ffilmiau/Films - Indoors	Dydd Llun/Mon 09:00-00:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-00:00 Dydd Iau/Thu 09:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 09:00-00:00
Cerddoriaeth Fyw/Live Music - Indoors and Outdoors	Dydd Llun/Monday 09:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 09:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 09:00-00:00
Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music - Indoors	Dydd Llun/Mon 09:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-00:00

	Dydd Iau/Thursday 09:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 09:00-00:00
Adloniant Arall/Other Entertainment - Indoors and Outdoors	Dydd Llun/Monday 09:00-00:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 09:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 09:00-00:00
Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol - On and Off Premises	Dydd Llun/Mon 09:00-00:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-00:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-00:00 Dydd Iau/Thursday 09:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 09:00-00:00

2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Bwriedir cynnal polisi her 25 gwerthiant alcohol, a ni fydd plant yn cael mynediad i'r eiddo ar ôl 8yh.
- System TCC yn weithredol ar yr eiddo, ac bydd o leiaf un aelod o staff wedi'i hyfforddi i'w defnyddio. Bydd lluniau ar gael i lawrlwytho am gyfnod o leiaf o 28 diwrnod ar gais yr Heddlu neu'r Cyngor.
- Bydd larymau tân wedi gosod a bydd diffoddwyr wedi lleoli yn y manau priodol.
- Bwriedir cadw lefelau sŵn i'r lleiafswm a pheidio rhoid gwydro yn y biniau allanol ar ôl 9yh.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Busnes cyfagos	E-bost - gwrthwynebiad
Heddlu Gogledd Cymru	sylwadau
Gwarchod y Cyhoedd	Sylwadau ac amodau

3.2 Busnes cyfagos

Cafwyd 1 e-bost yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o:

- Atal niwsans cyhoeddus
- Atal trosedd ac anrhefn

Mynegwyd pryderon ar faterion gwrthgymdeithasol o ran sŵn, cwsmeriaid yn ysmegu y tu allan a materion glanweithdra y tu ôl i'r eiddo. Gweler e-bost ynghlwm i'r cais am y manylion llawn.

Gwarchod y Cyhoedd

Derbyniwyd sylwadau ac amodau gan yr Adran Gwarchod y Cyhoedd, a cytunodd yr ymgeisydd i gyfaddawdu drwy newid yr oriau agor.

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda Gwarchod y Cyhoedd a'r Heddlu; ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.